**AC-09-02(p5)**

# Gostwng yr Incwm a Gollwyd oddi wrth Daliadau Presgripsiynau

## Pwrpas

1. Pwrpas y nodyn hwn yw rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Comisiwn Archwilio ar y cynnydd da a gyhoeddwyd gan y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol o ran gostwng yr incwm a gollwyd oddi wrth daliadau presgripsiynau sy'n deillio o gleifion yn hawlio eithriadau nad oes ganddynt yr hawl iddynt. Mae gan y Pwyllgor hefyd y cyfle i ystyried gwahodd y Swyddog Cyfrifo, Mrs Ann Lloyd, i ddychwelyd i gyfarfod y Pwyllgor yn y dyfodol i ymhelaethu ar gyhoeddiad diweddar y Gweinidog. Mae'r nodyn yn cofnodi'r rôl bwysig y mae'r Pwyllgor ei hun yn ei chwarae i annog camau gweithredu i ostwng lefel yr incwm a gollwyd.

## Cefndir

2. Ystyriodd y Pwyllgor Archwilio adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol ar Sicrhau'r Incwm Mwyaf oddi wrth Daliadau Presgripsiynau ym mis Rhagfyr 2000 ac ym mis Ionawr 2001. Roedd adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol yn amcangyfrif bod tua £15 miliwn yn cael ei golli pob blwyddyn o bosibl o ganlyniad i ganiatáu i unigolion nad ydynt yn bodloni'r meini prawf perthnasol o ran eithriadau gael eu heithrio rhag taliadau presgripsiynau. Seiliwyd yr amcangyfrif o tua £15 miliwn ar ddadansoddiad manwl o tua 2,000 o bresgripsiynau a brisiwyd ar gyfer mis Medi 1999. Nododd yr adroddiad amrywiaeth o achosion am yr eithriadau anghywir, gan gynnwys gwallau syml ar ran cleifion a gwiriadau anghyson ar ran y fferyllwyr. Gwnaed nifer o argymhellion yn adroddiad y Comisiwn Archwilio ei hun ar

gyfer gostwng lefel yr incwm a gollwyd, a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

3. Rhoddodd Archwilydd Cyffredinol Cymru farn amodol yn ei adroddiad hefyd ar Gyfrifon Cryno'r GIG 2000-01 mewn cysylltiad â diffyg posibl mewn refeniw a oedd yn ddyledus i GIG Cymru oddi wrth daliadau presgripsiynau. Nid oedd systemau na gweithdrefnau gan yr awdurdodau iechyd ar waith i nodi ac adennill arian a oedd yn ddyledus i GIG Cymru ond nas casglwyd gan fferyllwyr annibynnol. O ganlyniad, daeth archwilwyr pedwar o'r pum awdurdod iechyd i'r casgliad nad oedd digon o dystiolaeth ar gael i bennu swm y diffyg yn 2000-01 gyda sicrwydd rhesymol. Felly, cyfyngwyd ar gwmpas eu barn archwilio ym mhob achos a gweithredodd yr Archwilydd Cyffredinol yn yr un modd mewn cysylltiad â'r cyfrif cryno.

**Datblygiadau diweddar**

4. Ar 24ain Hydref 2002 cyhoeddodd Jane Hutt, Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, bod GIG Cymru wedi llwyddo i leihau colledion amcangyfrifedig, o'r £15 miliwn a amcangyfrifwyd yn adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol, i £8 miliwn y flwyddyn. Eglurodd y Gweinidog bod y canlyniad hwn yn deillio o nifer o gamau a gymerwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru mewn partneriaeth â Gwasanaeth Gwrth Dwyll y GIG, sy'n cwmpasu Cymru a Lloegr, a chyda phartneriaid eraill. Mae'r £8 miliwn a nodwyd yn ostyngiad sylweddol, sef £7 miliwn, o'r amcangyfrif yn adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol, sy'n cyfateb i ostyngiad o tua 47 y cant.

5. Dywedodd y Gweinidog, wrth gyhoeddi'r ffigur diwygiedig:

> "Mae twyll yn y GIG yn gwbl annerbyniol…Mae'r arbedion hyn a wnaed o ganlyniad i ostyngiadau mewn twyll erbyn hyn yn cael eu gwario lle y bwriadwyd gwario'r arian yn y lle cyntaf - ar gyflwyno gofal i gleifion. Cymerodd Llywodraeth Cynulliad Cymru nifer o gamau i greu strwythur effeithiol i wrthsefyll twyll yn y GIG ac mae'r ffigur hwn yn profi bod y rhain wedi bod yn llwyddiannus."

Dywedodd y Gweinidog hefyd i'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol gytuno bod y fethodoleg a ddefnyddiwyd yn sylfaen gadarn ar gyfer amcangyfrif colledion yn gywir. Atodir datganiad llawn y Gweinidog yn Atodiad 1.

**Yr amcangyfrif diwygiedig o golledion**

6. Seilir cyfrifiad y Gwasanaeth Iechyd Gwladol o ffigur eleni sef £8 miliwn ar fethodoleg a ddatblygwyd gan Wasanaeth Gwrth Dwyll y GIG. Wrth baratoi'r nodyn hwn, cadarnhawyd gennym fod yr ymagwedd tuag at amcangyfrif y golled a ddefnyddir gan Wasanaeth Gwrth Dwyll y GIG yn debyg i'r hyn y mae'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn ei ddefnyddio wrth baratoi adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol. Yn ogystal, defnyddiodd Gwasanaeth Gwrth Dwyll y GIG y fethodoleg cyn hynny i asesu lefelau o golled o ran presgripsiynau yn Lloegr, a nodwn fod y GIG a Llywodraeth y Cynulliad yn hyderus fod y fethodoleg yn mesur yn gywir o fewn 1 y cant. Gan fod yna gysondeb sylfaenol rhwng y broses brescripsiwn yng Nghymru a Lloegr ni fyddai'n afresymol defnyddio methodoleg debyg.

**Actions Y camau a gymerwyd er mwyn gostwng yr incwm a gollwyd**

7. Mae gostyngiad yn yr incwm a gollwyd yn gyson â'r sefyllfa sy'n gwella yn Lloegr, lle cafwyd gostyngiad o 41 y cant yn y golled amcangyfrifedig yn 2000-01 o £117 miliwn i £69 miliwn. Yn ogystal, ers cyhoeddi adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol, gwrandawiad dilynol y Pwyllgor Archwilio ac adroddiad y Pwyllgor ei hun, bu'r GIG yng Nghymru yn ceisio cael gostyngiad yn yr incwm a gollwyd trwy amrywiaeth o ffyrdd. Yn ei chyhoeddiad diweddar, cyfeiriodd y Gweinidog at nifer o'r rhain:

- mae Llywodraeth y Cynulliad wedi llunio cytundeb partneriaeth gyda Gwasanaethau Gwrth Dwyll y GIG ar Lundain, y cyfeiriwyd ato uchod. Mae'r cytundeb hwn yn caniatáu i'r Gwasanaeth Gwrth Dwyll ddarparu cymorth gyda pholisïau, gwaith mesur ac arolygu, gwybodaeth a hyfforddiant. Mae hefyd yn sicrhau bod gan GIG Cymru fynediad i wasanaethau gwrth dwyll cenedlaethol.

- mae arbenigwyr gwrth dwyll sydd wedi derbyn hyfforddiant proffesiynol yn gyfrifol am bob Ymddiriedolaeth GIG ac Awdurdod

Iechyd yng Nghymru. Ategwyd gwaith yr arbenigwyr hyn yn sgîl creu tîm penodol o arbenigwyr gwrth dwyll a grëwyd i GIG Cymru.

- ar 23ain Gorffennaf 2002, llofnododd Llywodraeth y Cynulliad siarteri gwrth dwyll gyda phob un o'r sefydliadau proffesiynol mawr, Coleg Brenhinol y Nyrsys, a chyda grwpiau o gleifion. Mae'r siarteri hyn yn nodi'r sylfaen ar gyfer gwrthsefydlu twyll rhwng y GIG a'i bartneriaid.

- mae'r GIG yng Nghymru wedi parhau i weithio'n agos gyda'r fferyllwyr i sicrhau eu bod yn gwirio bod y bobl sy'n eithrio rhag taliadau'r GIG yn ddilys i wneud hynny.

- cymerwyd mesurau hefyd i gryfhau'r broses o ymchwilio i dwyll, mynd ar drywydd twyll a chosbau am dwyll. Mae'r mesurau hyn yn cynnwys cyflwyno'r Tîm Gwirio Ôl-Daliadau sy'n gyfrifol am weithredu'r taliadau cosb newydd o hyd at bum gwaith y swm a gafwyd trwy eithriadau amhriodol.

8. Mae nifer o'r gweithrediadau hyn yn adlewyrchu ac yn adeiladu ar argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor Archwilio yn ei adroddiad ei hun. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cydnabod bod adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol a'r Pwyllgor Archwilio wedi chwarae rôl bwysig i annog gwelliannau yn hyn o beth. Er enghraifft, argymhellodd y Pwyllgor y dylid gweithio'n agosach gyda'r proffesiwn fferyllol, adolygu sancsiynau a chosbau presennol a gwella trefniadau monitro a mesur. Mae'n amlwg o gamau gweithredu Llywodraeth y Cynulliad a ddisgrifiwyd uchod, iddi weithredu ar yr argymhellion hyn. Gwnaeth y Pwyllgor argymhellion eraill, fel gwella cynlluniau cyhoeddusrwydd gwrth dwyll a chofnodi oed yn awtomatig ar ffurflen bresgripsiwn, y mae Llywodraeth y Cynulliad yn parhau i weithio arnynt.

**Cynnydd parhaus ar ostwng yr incwm a gollwyd**

9. Cyhoeddodd y GIG yng Nghymru ei fwriad i barhau i ymdrechu i greu diwylliant gwrth dwyll effeithiol, yn enwedig trwy ddatblygu'r siarteri y cytunwyd arnynt gyda'r cyrff cynrychioliadol amrywiol. Bydd yr Archwilydd

Cyffredinol, wrth gwrs, yn ystyried y fethodoleg a ddefnyddiwyd i gyfrifo'r asesiad diwygiedig o'r incwm a gollwyd ac effaith y ffigurau diwygiedig, ynghyd ag adroddiadau yr archwilwyr perthnasol a benodwyd, wrth adolygu Cyfrifon Cryno y GIG ar gyfer 2002-03. A chymryd bod yr adolygiadau hyn yn dod i'r casgliad bod yr asesiad o'r incwm a gollwyd, sef £8 miliwn yn rhesymol, gallai'r ffigur diwygiedig erbyn hyn fod yn waelodlin effeithiol ar gyfer monitro gwelliannau o ran gostwng yr incwm a gollwyd yn y dyfodol. Mae hwn yn gyson ag argymhelliad y Pwyllgor Archwilio y dylai gwaith y Cynulliad yn y maes hwn gael ei arwain gan darged ar gyfer lleihau nifer y bobl sy'n cael eu heithrio rhag talu er nad oes ganddynt hawl i hynny naill ai oherwydd gwall neu dwyll flwyddyn ar ôl blwyddyn.

**11 Rhagfyr 2002**